

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Woods Dental**

7 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	7
	Profiad y Claf.....	7
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	10
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	15
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	18
6.	Y Camau Nesaf.....	20
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Woods Dental, 65 Heol Walter, Abertawe, SA1 4PT, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 7 Gorffennaf 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Woods Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abertawe. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, dau therapydd, chwe nyrs ddeintyddol, a dau staff derbynfa. Mae dau ddeintydd arbenigol ymweld (mewn llawdriniaeth y geg ac orthodonteg) hefyd yn gweithio rhan amser yn y practis.

Mae Woods Dental yn bractis hyfforddi hefyd, sy'n cynorthwyo deintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf ym maes deintyddiaeth (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol) trwy ddarparu goruchwyliaeth gan hyfforddwr neilltuedig. Ar adeg ein harolygiad, roedd dau ddeintydd blwyddyn sylfaen yn gweithio yn y practis hefyd.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd mae Woods Dental yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Dywedodd y cleifion a wnaeth gwblhau holiaduron AGIC wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Roedd gan y practis system ar waith i gasglu barn cleifion am eu profiadau. Rydym wedi gofyn i berchnogion y practis roi system ar waith i ddangos bod sylwadau cleifion wedi cael eu hystyried a bod y practis wedi gweithredu yn sgil y sylwadau hynny.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel.

Roedd trefniadau ar waith i ymateb i argyfyngau cleifion. Gwelsom fod tystysgrifau a roddwyd i staff mewn perthynas ag adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) wedi gorffen. Er bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu, gwnaethom ofyn i berchnogion y practis geisio cyngor ar ba gamau gweithredu pellach y gallent eu cymryd mewn perthynas â hyn.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer trin gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân yn unol â'r hyn a argymhellir yn y polisi cenedlaethol a'r ddogfen ganllaw. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol er mwyn lleihau croes-heintio. Rydym wedi gofyn i'r practis adolygu'r trefniadau ar gyfer cofnodi dyddiadau prosesu offer deintyddol er mwyn ystyried polisi a chanllawiau cenedlaethol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus, ac roedd yr offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod ansawdd cadw cofnodion yn amrywio rhwng y deintyddion. Er i ni weld rhywfaint o arferion nodedig, rydym hefyd wedi nodi bod angen i rai deintyddion wneud gwelliannau mewn perthynas â hyn.

Perchnogion y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol. Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi a bod cyfathrebu yn dda ymhlith y tîm.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith, gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i'r cleifion.

Rydym wedi gofyn i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn arddangos tystysgrifau cofrestriad AGIC cyfredol er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Rydym hefyd wedi gofyn i berchnogion y practis wneud gwelliannau mewn perthynas â chofnodi manylion ymdrin â phryderon (cwynion).

Roedd adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg ac wedi ei addurno i safon uchel. Roedd ystafell driniaeth ar gael ar y llawr daear i gleifion nad oeddent yn gallu defnyddio grisiau.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y cleifion a wnaeth gwblhau holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Roedd gan y practis system ar waith i gasglu barn cleifion am eu profiadau. Rydym wedi gofyn i berchnogion y practis roi system ar waith i ddangos bod sylwadau cleifion wedi cael eu hystyried a bod y practis wedi gweithredu yn sgil y sylwadau hynny.

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i berchnogion y practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 25 o holiaduron wedi eu cwblhau cyn ein hymweliad arolygu.

Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Ar y cyfan, dywedodd y cleifion oedd wedi dychwelyd yr holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn. Gwnaethom dderbyn rhai sylwadau (gan dri chlaf) oedd yn amlygu meysydd roeddent yn credu y gellid eu gwella yn y gwasanaeth. Roedd y rhain yn ymwneud â hyd yr amser rhwng apwyntiadau a darpariaeth gwybodaeth. Efallai yr hoffai'r practis ystyried y sylwadau hyn ochr yn ochr â'i system adborth gan gleifion ei hun i ganfod a ellir gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyn.

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth ddychwelyd holiaduron fod tîm y practis wedi rhoi croeso iddynt, a chynigiodd ychydig dros hanner ohonynt (13 o gleifion) eu sylwadau eu hunain oedd yn nodi bod y tîm yn arbennig o groesawgar.

Er bod rhai cleifion (naw) wedi disgrifio profi oedi o ran cael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad, gwnaethant awgrymu nad oedd hyn yn digwydd yn aml ac nad oedd wedi peri problem iddynt. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau amgen, neu aros, yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar y diwrnod.

Gwnaethom wahodd cleifion i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol am eu profiad. Mae detholiad o'r sylwadau a gafwyd isod:

'Deintyddion gwych, cyfeillgar a gwybodus.'

'Wedi cael y tîm i fod yn barod iawn ei gymwynas ac yn ofalgar.'

'Maent yn gwneud i mi ymlacio, ac rwy'n cael yr holl wybodaeth a chyngor angenrheidiol.'

'Mae rhestr aros hir am apwyntiadau weithiau.'

'Practis glân iawn sy'n edrych yn dda.'

Esboniodd perchnogion y practis fod y tîm yn derbyn adborth trwy arolygon blynyddol o foddhad cleifion, sy'n cael eu cynnal ar ei ran gan ddarparwr y cynllun talu am driniaeth ddeintyddol. Roedd copi o ganfyddiadau'r arolwg mwyaf diweddar ar gael ar ddiwrnod ein harolygiad.

Dywedwyd wrthym hefyd bod cleifion yn gallu darparu adborth ynghylch eu profiad drwy gyfrwng blwch sylwadau. Gwelsom fod hwn ar gael yn y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod gan y cleifion y cyfle i gynnig sylwadau am eu profiad er mwyn i dîm y practis eu hystyried, gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth lle bo hynny'n briodol.

Gwnaethom edrych ar hapsampl o sylwadau a dderbyniwyd, ac, ar y cyfan, roedd y sylwadau a wnaed yn gadarnhaol. Gwelsom nad oedd unrhyw system ffurfiol ar waith ar gyfer monitro'r sylwadau a dderbyniwyd. Gallai hyn olygu na fyddai'r tîm staff yn gallu ystyried rhai sylwadau mewn modd amserol. Derbyniodd perchnogion y practis ein hawgrym y dylid ystyried y sylwadau a wnaed trwy gyfrwng y blwch awgrymiadau yng nghyfarfodydd rheolaidd y practis, a dylid cadw nodiadau i ddangos eu bod wedi cael eu hystyried a bod y practis wedi gweithredu yn eu sgil.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchnogion y practis roi system addas ar waith i ddangos bod sylwadau/awgrymiadau a wnaed gan y cleifion wedi cael eu hystyried a bod y practis wedi gweithredu yn eu sgil.

Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi'u harddangos yn glir, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer derbyn triniaeth y GIG am ddim. Roedd prisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat hefyd wedi'u harddangos. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion oedd yn ymweld â'r practis fynediad rhwydd at wybodaeth am dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

Roedd gan y practis wefan oedd angen ei diweddarau rhywfaint i adlewyrchu'r tîm staff sy'n gweithio yn y practis.

Roedd rhai taflenni hybu iechyd ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a chynghor i'w helpu i ofalu am hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydr-X yn ddiogel.

Roedd trefniadau ar waith i ymateb i argyfyngau cleifion. Gwelsom fod tystysgrifau a roddwyd i staff mewn perthynas ag adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) wedi gorffen. Er bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu, gwnaethom ofyn i berchnogion y practis geisio cyngor ar ba gamau gweithredu pellach y gallent eu cymryd mewn perthynas â hyn.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer trin gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân yn unol â'r hyn a argymhellir yn y polisi cenedlaethol a'r ddogfen ganllaw. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol er mwyn lleihau croes-heintio. Rydym wedi gofyn i'r practis adolygu trefniadau ar gyfer cofnodi dyddiadau prosesu offer deintyddol er mwyn ystyried polisi a chanllawiau cenedlaethol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus, ac roedd yr offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod ansawdd cadw cofnodion yn amrywio rhwng y deintyddion. Er i ni weld rhywfaint o arferion nodedig, rydym hefyd wedi nodi bod angen i rai deintyddion wneud gwelliannau mewn perthynas â hyn.

Offer/dogfennau radiograffeg

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau a gwybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X yn y practis yn ddiogel ar gael yn Ffeil Amddiffyn Rhag Ymbelydredd y practis. Roedd tystysgrifau gwiriadau diogelwch ar gael ar gyfer pob peiriant pelydr-X a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis, ac roedd y rhain yn gyfredol. Roedd tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn ôl y gofyn. Nid oedd pob tystysgrif ar gael ar ddiwrnod ein harolygiad, ond darparodd perchnogion y practis gopiâu o'r rhain o fewn 24 awr o'n hymweliad arolygu.

Gwelsom fod pelydrau-X digidol yn cael eu defnyddio, a dywedwyd wrthym fod archwiliadau sicrhau ansawdd wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau ansawdd delweddau. Nod y broses hon oedd nodi unrhyw faterion sy'n codi'n rheolaidd, er mwyn gwneud addasiadau yn ôl yr angen i sicrhau bod sganiau pelydr-X o safon addas.

Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis. Roedd cyfres o siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei nodi. Efallai yr hoffai perchnogion y practis ystyried cadw'r siartiau llif perthnasol gyda'r cyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng (ar gyfer yr argyfwng penodol mae'r siart lif yn berthnasol iddo) mewn waledi plastig ar wahân er mwyn hwyluso mynediad cyflym a rhwydd atynt mewn argyfwng.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dynodi bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Fodd bynnag, roedd y rhain yn dangos bod yr hyfforddiant wedi digwydd dros 12 mis yn ôl, ac felly roeddent wedi dod i ben. Esboniodd perchnogion y practis y rheswm am hyn, a rhoddwyd sicrwydd ar lafar bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Rhagfyr 2015. Gwnaethom argymhell y dylai perchnogion y practis geisio cyngor gan y darparwr hyfforddiant ar unrhyw gamau ychwanegol roedd angen iddynt eu cymryd, cyn i staff fynychu'r hyfforddiant diweddar, er mwyn i staff allu perfformio adfywio cardio-pwlmonaidd mewn argyfwng. Cytunodd perchnogion y practis i roi sylw i'r mater hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u rolau penodol pe bai argyfwng claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i berchnogion y practis gadarnhau i AGIC eu bod wedi cymryd camau gweithredu i sicrhau y gall y staff berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd mewn argyfwng.

Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn canfod cyffuriau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben a chyflenwi rhai newydd yn eu lle, a hefyd i wirio'r offer brys yn y practis yn rheolaidd. Roedd llyfr cofnodion ysgrifenedig wedi cael ei gynnal a oedd yn dangos y broses hon.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Roedd gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, ac roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel nes iddynt gael eu casglu gan y gwasanaeth casglu gwastraff.

Roedd bagiau ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwnaethom awgrymu y dylid adolygu'r trefniant hwn er mwyn lleihau'r perygl o osod gwastraff peryglus yn y bagiau hyn trwy gamgymeriad. Cytunodd perchnogion y practis i roi sylw i'r mater hwn.

Roedd rhai o'r cynwysyddion ar gyfer cael gwared ar offer miniog (e.e. nodwyddau) yn cael eu storio ar y llawr. Dylid ystyried storio'r rhain yn unol â chanllawiau⁴ a gyhoeddir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn lleihau'r perygl eu bod yn cael eu troi drosodd neu fod plant yn gallu mynd atynt.

Roedd gan y practis ddiolwyr amalgam⁵ er mwyn tynnu gronynnau amalgam (llenwadau) o ddŵr gwastraff a'u gwaredu'n ddiogel.

Dadheintio offer deintyddol a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)

Gwelsom fod proses addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).⁶ Dylai hyn, ynghyd â'r defnydd o weithdrefnau rheoli addas, leihau'r risg o groesheintio rhwng offer deintyddol.

Roedd y cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.

Roedd cofnodion cynhwysfawr wedi cael eu cadw yn dangos bod gwiriadau priodol wedi cael eu cynnal ar y peiriannau awtoclaf.⁷ Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch cyfredol ar gael ar gyfer y peiriannau awtoclaf.

⁴ <http://www.hse.gov.uk/biosafety/blood-borne-viruses/avoiding-sharps-injuries.htm>

⁵ Dyfais sy'n tynnu gronynnau o amalgam mercwri (sydd mewn rhai llenwadau deintyddol) o ddŵr gwastraff cyn iddo fynd i'r system garthffosiaeth.

⁶ Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁷ Siambr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

Gwelsom fod yr offer deintyddol mewn pecynnau priodol er mwyn lleihau'r risg o heintio wrth gael eu storio. Er bod y dyddiad defnyddio'n cael ei nodi ar becynnau offerynnau deintyddol a oedd wedi cael eu storio, nid oedd y dyddiad y cawsant eu prosesu (glanhau a sterileiddio) wedi cael ei nodi. Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y dyddiadau prosesu'n cael eu nodi hefyd er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod dyddiadau prosesu'n cael eu cofnodi'n glir ar becynnau offer deintyddol sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwelsom fod staff wedi dechrau archwiliad rheoli heintiau gan ddefnyddio dull cydnabyddedig sy'n cyd-fynd yn benodol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Pan fydd wedi ei gwblhau, bydd hyn yn golygu y bydd y tîm deintyddol wedi hunanasesu eu harfer yn unol â'r polisi a'r canllawiau a amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yna, dylai tîm y practis nodi meysydd i'w gwella a monitro cynnydd yn rheolaidd.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol yn y practis. Canfuom fod y rhain yn lân ac yn daclus ac, ar y cyfan, wedi'u dodrefnu er mwyn hwyluso glanhau rhwydd ac effeithiol. Gwelsom nad oedd y lloriau yn rhai o'r ystafelloedd triniaeth wedi cael eu selio'n ddigonol rhwng y llawr a'r waliau. Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod yr holl ardaloedd hyn yn cael eu selio'n effeithiol er mwyn atal sbwriel a llwch rhag cronni yn y cilfannau rhwng y llawr a'r waliau.

Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd cyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar diogelu untro ar gael i leihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd rheolau lleol ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel yn cael eu harddangos ym mhob ystafell driniaeth.

Cawsom sicrwydd ar lafar gan y staff bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn ddyddiol ar y cywasgydd⁸ a ddefnyddir yn y practis.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom ystyried sampl o 20 o gofnodion deintyddol cleifion, a gwelsom fod ansawdd cadw cofnodion yn amrywio rhwng y deintyddion.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion dau o'r deintyddion yn gynhwysfawr iawn, ac roeddem yn ystyried bod y rhain yn enghreifftiau o arfer nodedig.

Gwelsom fod angen gwella gweddill y sampl. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â deintyddion yn cymryd pelydrau-X heb gofnodi cyfiawnhad dros wneud hynny, peidio â chofnodi defnydd alcohol a thybaco gan gleifion ac a oedd cyngor hyrwyddo iechyd yn cael ei gynig (byddai hyn hefyd yn dangos a oedd claf mewn perygl o ganser y geg ac a oedd yn cael ei fonitro), a pheidio â chofnodi sgoriau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE).⁹

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Dylai perchnogion y practis ystyried cynnal archwiliad practis cyfan o gofnodion cleifion fel rhan o broses sicrhau ansawdd cyffredinol y practis.

⁸ Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer, at ddiben triniaethau deintyddol.

⁹ Offeryn sgrinio yw BPE sy'n cael ei ddefnyddio gan ddeintyddion i ganfod clefyd y deintgig. Byddai cofnodi sgoriau BPE yn dangos bod risg claf o ddiodef o glefyd y deintgig wedi cael ei asesu gan y deintydd.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Perchnogion y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol. Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddiant a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith, gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i'r cleifion.

Rydym wedi gofyn i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn arddangos tystysgrifau cofrestriad AGIC cyfredol er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Rydym hefyd wedi gofyn i berchnogion y practis wneud gwelliannau mewn perthynas â chofnodi manylion ymdrin â phryderon (cwynion).

Ar adeg ein harolygiad, y prif ddeintyddion (perchnogion y practis) oedd yn gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol.

Cadarnhaodd perchnogion y practis fod yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Roedd y sampl o gofnodion a welsom yn cefnogi hyn.

Esboniodd y staff eu bod yn gallu mynd at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y sampl o dystysgrifau hyfforddi a welsom yn cefnogi hyn. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Roedd cofnodion hefyd ar gael oedd yn cadarnhau bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch y cleifion rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a chawsom ein sicrhau gan gofnodion AGIC bod pob un ohonynt wedi eu cofrestru fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Er bod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir ar gyfer mwyafrif y deintyddion oedd yn gweithio yn y practis, roedd dau ddeintydd nad oedd tystysgrifau ar gael ganddynt. Roedd perchnogion y practis eisoes yn ymwybodol o'r mater hwn, a chawsom sicrhwydd bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i roi sylw iddo . Hefyd, gwelsom fod angen diweddarau tystysgrifau dau ddeintydd i adlewyrchu manylion cyswllt presennol AGIC. Cytunodd perchnogion y practis i roi sylw i'r mater hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat wneud trefniadau i arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn amlwg yn y practis.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion oedd wedi cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat. Cawsom ein sicrhau gan berchnogion y practis bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i roi sylw i hyn.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod cofnodion wedi cael eu cadw o gyfarfodydd y practis. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu ymhlith tîm y practis yn dda ac y byddent yn gyfforddus wrth leisio unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith gydag uwch-staff y practis.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisiâu diogelu oedolion sy'n agored i niwed a phlant, rheoli heintiau, a storio a gwaredu gwastraff. Byddai'n fuddiol cynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol yn y polisi diogelu oedolion agored i niwed er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd. Gwnaethom hysbysu perchnogion y practis am hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i gynnwys yr wybodaeth hon.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith er mwyn i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Ar y cyfan, roedd y rhain yn cydymffurfio â *Gweithio i Wella*,¹⁰ y trefniadau ar gyfer trin a thrafod pryderon ynghylch gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru, a hefyd yn cydymffurfio â gofynion rheoliadau deintyddiaeth breifat. Ar gyfer pryderon am ofal y GIG, roedd angen i'r weithdrefn ysgrifenedig gynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned lleol. Gwnaethom hysbysu

¹⁰ 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer trin ac ymateb i bryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru

perchnogion y practis am hyn er mwyn iddynt allu ychwanegu'r manylion cyswllt priodol.

Er i ni weld bod cofnodion wedi cael eu cadw o gwynion ffurfiol/ysgrifenedig, nid oedd y rhain yn dangos yr ymatebion a ddarparwyd na'r camau gweithredu a gymerwyd gan y practis i ddatrys y cwynion. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn eglur a oedd y cwynion hyn wedi cael eu trin yn unol â gweithdrefnau'r practis ei hun a'r rheoliadau perthnasol.¹¹ Gwnaethom drafod hyn â pherchnogion y practis, a dderbyniodd fod angen gwella hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchnogion y practis weithredu system i ddangos sut yr ymdriniwyd â chwynion a sut mae dysgu gan gwynion wedi arwain at welliannau mewn gwasanaeth fel y bo'n briodol.

Nid oedd gan y practis unrhyw system glir ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar. Gwnaethom drafod hyn â pherchnogion y practis ac awgrymu y dylid ystyried rhoi system addas ar waith. Bwriad hyn yw canfod unrhyw themâu cyffredin sydd efallai yn dod i'r amlwg mewn cwynion er mwyn gallu gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth fel y bo'n briodol.

Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y practis. Fodd bynnag, dywedodd 16 o'r cleifion oedd wedi cwblhau'r holiaduron nad oeddent yn ymwybodol o'r broses y dylid ei dilyn. Felly, efallai yr hoffai perchnogion y practis ymchwilio sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

¹¹Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg ac wedi ei addurno i safon uchel. Roedd ystafell driniaeth ar gael ar y llawr daear i gleifion nad oeddent yn gallu defnyddio grisiau.

Mae Woods Dental mewn adeilad sydd ger canol dinas Abertawe. Dywedwyd wrthym fod yr adeilad wedi cael ei ddefnyddio fel practis deintyddol ers dros 70 mlynedd. Mae'r perchnogion presennol yn berchen ar y practis ers 2009.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu allan yn ôl pob golwg, ac roedd arwyddion clir at y practis. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn cael eu harddangos yn amlwg y tu allan, ynghyd â'r oriau agor a'r rhif cyswllt mewn argyfwng. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gallu cael gwybodaeth ynghylch pwy fyddai'n darparu triniaeth a rhif i'w alw pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt pan fyddai'r practis ar gau. Roedd un o'r deintyddion ar y rhestr wedi gadael y practis, ac felly dylid diweddarau'r rhestr enwau i adlewyrchu hyn.

Nid oedd gan y practis lefydd parcio dynodedig. Fodd bynnag, roedd parcio cyfyngedig (o ran amser) ar gael ar hyd y ffordd yn union y tu allan i'r practis. Roedd lleoedd parcio heb gyfyngiad ar gael yn y strydoedd ochr gerllaw.

Roedd mynediad i'r practis trwy gyfrwng grisiau neu ramp. Roedd canllawiau wedi eu gosod i helpu'r cleifion hynny oedd eu hangen. Er bod ramp ar gael, roedd gris bach o'r pafin ato a allai achosi anawsterau i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwnaethom drafod hyn â pherchnogion y practis, a esboniodd fod hyn wedi cael ei ystyried pan gafodd y practis ei ailwampio, ond ar y pryd ni ellid gwneud unrhyw addasiad pellach. Fodd bynnag, gwnaethant gytuno i ail-edrych ar hyn i weld a ellid gwneud unrhyw beth pellach i wneud mynediad yn haws.

Roedd y practis wedi'i addurno i safon uchel iawn yn fewnol, ac roedd pob man a welsom yn lân, yn daclus, yn olau, ac wedi'i awyru. Roedd ardaloedd aros ar y llawr daear a'r ail lawr, ac roedd eu maint yn briodol yn ôl pob golwg o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth a'r cleifion oedd yn mynychu. Roedd cyfanswm o bum ystafell driniaeth wedi eu trefnu dros dri llawr. Roedd ystafell driniaeth ar y llawr daear i gleifion nad oeddent yn gallu defnyddio grisiau neu oedd yn cael trafferth defnyddio grisiau. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom glaf yn cael cynnig defnyddio'r ystafell driniaeth ar y llawr daear oherwydd ei fod yn cael trafferth defnyddio'r grisiau.

Roedd toiledau'n cael eu darparu i'r staff ac i'r cleifion. Roedd y toiled ar y llawr daear yn addas i gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Gwelsom fod yr

ardaloedd hyn yn lân ac yn hylan ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd arwyddion clir at yr allanfeydd tân, ac roedd y cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân yn cael eu harddangos yn glir. Roedd diffoddwyr tân ar gael trwy'r adeilad, a gwelsom eu bod wedi cael eu gwirio o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Golygai hyn fod staff a chleifion yn gallu cael eu cyfeirio at fan diogel pe bai tân, a bod gan staff fynediad at gyfarpar diffodd tân oedd wedi cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran profiad y claf, cyflenwi'r Safonau Iechyd a Gofal, a rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Woods Dental yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Woods Dental

Dyddiad yr arolygiad: 7 Gorffennaf 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
8	Dylai perchnogion y practis roi system addas ar waith i ddangos bod sylwadau/awgrymiadau a wnaed gan y cleifion wedi cael eu hystyried a bod y practis wedi gweithredu yn eu sgil. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.3)	Bydd sylwadau ac awgrymiadau cleifion yn cael eu casglu a'u trafod yng nghyfarfod misol y practis.	Christopher Woods	Ar unwaith
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
11	Mae angen i berchnogion y practis gadarnhau i AGIC eu bod wedi cymryd camau gweithredu i sicrhau y gall y staff berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd mewn argyfwng.	Roedd hyfforddiant mewnol yn y practis eisoes wedi cael ei drefnu ar adeg yr arolygiad. Yn y cyfamser, mae Cynnal Bywyd Sylfaenol i Ddeintyddion yn cael ei gynnal ar-lein.	Richard Woods	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 7.1)			
13	<p>Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod dyddiadau prosesu'n cael eu cofnodi'n glir ar becynnau offer deintyddol sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <p>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Paragraff 2.4(k))</p>	<p>Dylid nodi dyddiad prosesu a dyddiad dod i ben ar y pecynnau. Hyfforddiant mewnol i gael ei gynnal a'i gadarnhau.</p>	Christopher Woods	Ar unwaith
14	<p>Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.</p> <p>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1)</p>	<p>Nodwyd yr adborth. Mae'r holl staff clinigol wedi cael eu hysbysu am ganfyddiadau AGIC a'r adborth a dderbyniwyd. Mae safon cadw cofnodion wedi cael ei thrafod, ynghyd â'r gwelliannau sydd eu hangen. Dylid cydymffurfio â chanllawiau FGDP ar gyfer cadw cofnodion.</p> <p>Archwiliad mewnol i gael ei gynnal gan brif ddeintyddion y practis i sicrhau bod cadw cofnodion o safon addas.</p>	Christopher Woods	Ar unwaith
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
16	<p>Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat wneud trefniadau i</p>	<p>Gofynnwyd am y tystysgrifau AGIC wedi'u diweddarau.</p>	Richard Woods	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn amlwg yn y practis.</p> <p>(Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 4)</p>			
17	<p>Dylai perchnogion y practis weithredu system i ddangos sut yr ymdriniwyd â chwynion a sut mae dysgu gan gwynion wedi arwain at welliannau mewn gwasanaeth fel y bo'n briodol.</p> <p>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 15(1) ac 16; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011, Rheoliad 10 a 49)</p>	<p>Nodwyd yr adborth. Mae system newydd ar waith i gofnodi cwynion ac ymatebion.</p> <p>Mae cwynion yn cael eu hymchwilio a rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth aeth o'i le? • Pam aeth o'i le? • A allai ddigwydd eto? • Beth fyddai'n ei atal rhag digwydd eto? • A oes angen hyfforddiant neu ymrymuso ar y bobl oedd yn ymwneud â'r digwyddiad er mwyn iddynt wneud penderfyniadau? <p>Mae cwynion i gael eu trafod fel tîm ac i gael eu cofnodi yng nghyfarfodydd y practis. Mae cynnwys pobl eraill yn y dadansoddiad hwn yn golygu rhannu'r profiad; rydym yn llai tebygol o rannu bai ac yn fwy tebygol o gyflawni canlyniad cadarnhaol.</p>	Christopher Woods	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Dim			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): Alan Richard Woods a Christopher Alan Woods

Teitl: Perchnogion y Practis

Dyddiad: 01/09/15